

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Helen Pritchard (Tanyfron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam, Ceridwen Davies, ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y byddant fel teulu yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Elwyn Bailey (Llansannan) sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn ac sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos. Diolchwn amdano, a chyflwynwn ef a'r teulu i gyd i ofal yr Arglwydd. Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at Heddwyn Davies (Llansannan) sydd yn Ysbyty Broadgreen ac yn disgwyl y bydd wedi cael llawdriniaeth erbyn y penwythnos hwn. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-helynt ac y caiff adferiad llwyr a buan. Cofiw'n hefyd am Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau'n yr Inffirmari ond sy'n gobeithio cael dod adref yn yr wythnos neu ddwy nesaf. Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu ac y byddant yn profi nerth yr Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

I ddo

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod Nadoligaidd yng nghwmni band lleol fydd yn canu amrywiaeth o ganeuon poblogaidd hen a newydd nos yfory (Tachwedd 24ain) yn Neuadd Gymunedol Bae Cinnel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched.
- **CWRDD CHWARTER** yn cyfarfod yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych nos Iau, Rhagfyr 4ydd am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, cawn anerchiad y Llywydd Mr John Davies, Lôn Swan. Hefyd fe drosglwyddir y lywyddiaeth i'r Parch. O. Aneurin Owen, a gweinyddir y Cymun gan y Parch. Graham Floyd.
- **HWYL YR WYL** (oedran 7-11) – Dewch i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig! Sinema, gemau gwirion, parti 'Dolig, a chreffft yng Ngholeg y Bala, dydd Sadwrn, Rhagfyr 6ed o 10.00-5.30. Cost £10.
- **PWYLLGOR BLAENORIAID A DIACONIAID YR OFALAETH** yng Nghapel Llanefydd, nos Lun, Rhagfyr 8fed am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU A PHLYGAIN BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 14eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 28ain am 11.00 yng Nghapel Saron. Wedi'r oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno gael picnic yn y Ffestri cyn mynd ar daith gerdded yn yr ardal. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Tachwedd 2014

Darlleniad y Dydd

Jona 2:1-10

(BCND tud.840 / BCN: tud.766)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

'Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a'r cyfan sydd ynof ei enw sanctaidd.' Dyna sut mae'r Salm ydd yn cychwyn Salm 103 – gan gymell ei hun i roi clod a mawl i Dduw. A ninnau'n cael y fraint o addoli ar Sul arall, beth am i ni roi'n hunain yn llwyr i Dduw heddiw, gan ofyn i'r Ysbryd Glân ein deffro'n ysbrydol i sylweddoli pwy yw'n Harglwydd a beth y mae wedi ei wneud drosom yn Iesu Grist?

Mae'n darlleniadau dyddiol ar y Sul wedi'n harwain i bob cwr o'r Beibl. Ond byr fydd y daith i ni heddiw, wrth i ni droi tudalen a symud o lyfr byr Obadeia'r wythnos diwethaf i lyfr bychan arall a hanes cyfarwydd Jona a'r pysgodyn yr wythnos hon. Er y gall y gwahanol adrannau unigol ddelio â materion pur wahanol i'w gilydd, gwelwn hefyd y llinyn hwnnw sy'n clymu holl rannau amrywiol y Beibl at ei gilydd. Y stori fawr os mynnwch chi ynglŷn â Duw yn gweithredu trwy ras i achub pechaduriaid sy'n haeddu dim. Does dim syndod mai newyddion da yr ydym yn galw neges fawr y Beibl – gwell nac unrhyw stori yn y newyddion dyddiol! Yn y darn hwn o Jona gwelwn sefyllfa unigryw y prif gymeriad yn arwain at ddatganiad clir o un o egwyddorion allweddol y Beibl. Dywedodd un esboniwr fod ail bennod Jona yn cynnwys un o'r adnodau pwysicaf oll yn y Beibl – Jona 2:9 'Yr Arglwydd ydy'r un sy'n achub!' (Beibl.net)

Wrth i ni sylweddoli beth sydd wedi digwydd i Jona, cawn gysur ar gyfer pob math o sefyllfaoedd y gallwn ninnau eu hwynebu. Os ydym ni'n delio ag anawsterau teuluol, pechod, pwysau gwaith, afiechyd neu alar, dylem gadw mewn cof nad yw'n sefyllfa, er mor ddu y gall edrych, yn golygu ein bod y tu allan i gyrraedd yr Arglwydd hollalluog – ad. 2 "Gelwais ar yr Arglwydd yn fy nghyfyngder, ac atebodd fi". Mae Jona yn llwyddo i foli Duw er ei fod yn parhau mewn cryn bicil ym mol y pysgodyn. Serch gwrthwynebiad haerllug Jona i orchymyn Duw, mae Jona'n sylweddoli fod yr Arglwydd wedi trugarhau wrtho a'i achub o farwolaeth. Dyna sy'n ei arwain at weddi o fawl, diolchgarwch a gobaith. Ydym ni'n gweddio'n debyg i Jona, hyd yn oed mewn cyfyngder? Os ydym wedi ymddiried yn Iesu, mae'r hyn y mae Duw wedi ei wneud drosom hyd yn oed yn fwy rhyfeddol na'r hyn a ddigwyddodd i Jona. Mae Duw wedi maddau i ni ein gwrthryfel yn ei erbyn a'n hachub o farwolaeth dragwyddol trwy farwolaeth ac atgyfodiad ei fab Iesu. Oherwydd mai'r Arglwydd sy'n achub, ef sy'n haeddu'n clod – trwy ein gweddïau, ein canu a'n holl fywyd. Gweddiwn am gymorth Duw i wneud hynny heddiw, a phob diwrnod wedi hynny.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sadwrn • **Byw a Dweud – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Graham Daniels, Cyfarwyddwr *Christians in Sport* yn Eglwys Crist, Y Bala. £19 fydd cost y diwrnod gan gynnwys cinio yng Ngholeg y Bala, neu £13 os byddai'n well gennych ddod â'ch pecyn bwyd eich hun. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan www.souledoutcymru.net neu cysylltwch â Mair.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro ar daith** – y tro hwn yng Nghapel y Groes am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Gwener Bydd Cymdeithas Pheniel yn cyfarfod yn y Ffestri am 7.30 pryd y ceir cwis dan ofal Erfyl Jones, Dinbych.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith a hefyd yn bedyddio Cai Rees Brookes, mab bach Teleri a Cian, yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darllenid Wythnos Nesaf

Micha 5:1-5 (BCND tud.845 / BCN: tud.770)